**EITEM 5**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 3 Tachwedd 2014 |
| **TEITL** | Grantiau Ysgolion Llywodraeth Cymru |
| **PWRPAS** | Amlygu oblygiadau ariannol datganiadau diweddar Llywodraeth Cymru |
| **ARGYMHELLIAD** | Codi ymwybyddiaeth o’r mater |
| **AWDUR** | Owen Owens, Pennaeth Addysg Dros Dro |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

**1. Grantiau Ysgolion 2014/15**

1. Derbyniwyd llythyr gan Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru, dyddiedig 14 Awst 2014 yn egluro ei fwriad i weithredu lleihad ôl-syllol yng ngrantiau ysgolion ar gyfer 2014/15 ac ysgrifennais at ysgolion ddechrau Medi 2014 ar y mater gan gynnwys copi o lythyr y Gweinidog.

2. Derbyniwyd llythyr pellach gan y Gweinidog dyddiedig 3 Hydref 2014 yn cadarnhau lleihad o £4.4m ar lefel Cymru wedi’i gyfrifo yn erbyn tri grant penodol sef Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a’r Grant Llwybrau Dysgu 14-19.

3. Gan fod dau allan o’r tri grant yn cael eu dosbarthu i’r pedwar Consortiwm Addysg ar draws Cymru, bydd angen i Awdurdodau Gogledd Cymru gytuno ar sail ddosbarthiad ac rwy’n amcangyfrif lleihad o £136,056 ar gyfer Cyngor Gwynedd.

4. Mae’r Gweinidog yn cynnig i Awdurdodau ystyried grantiau eraill er mwyn cyflawni’r dasg ac rwyf eisoes wedi ymateb yn cadarnhau bwriad Cyngor Gwynedd i ystyried defnyddio’r hyblygrwydd.

5. Rwyf angen cadarnhau manylion gweithredu erbyn 7fed Tachwedd 2014 ac ar hyn o bryd yng nghanol adolygiad o gynlluniau ac ymrwymiadau cyfres o grantiau dan sylw.

6. Trwy ystyried opsiynau gweithredu, fy nod yw lleihau’r effaith cymaint â phosib ar ein dysgwyr.

**Grantiau Ysgolion 2015/16**

7. Rhyddhawyd yn ddiweddar Setliad Drafft 2015/16 Llywodraeth Leol oedd yn cynnwys ychydig o wybodaeth am grantiau ar lefel Cymru Gyfan.

8. Mae'r Gweinidog wedi penderfynu cyfuno 11 Grant Addysg/Ysgolion dan yr enw 'Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion'.

9. Mae'r wybodaeth sydd wedi'i dderbyn ar lefel Cymru yn dangos bod y grantiau dan sylw yn lleihau o £156.7m yn 2014/15 i £141.0m yn 2015/16, sef lleihad £15.7m neu 9.5% (ac yn nhermau real o leiaf £17.3m neu 10.9%).

10. Gyda'r Gweinidog yn cyfeirio yn benodol at "*Rhaid parhau i fodloni deilliannau a disgwyliadau grantiau unigol, er enghraifft cynnal y cymarebau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen."* a gan bod Grant Cyfnod Sylfaen yn £97.9m o'r cyfanswm £156.7m yn 2014/15, gellid dehongli mai ar y grantiau eraill fydd y fwyell yn disgyn, cyfateb i doriad o dros 25%, gydag oblygiadau dinistriol ar nifer o gynlluniau Ysgolion a'r Adran Addysg.

11. Mae yna grantiau eraill ym maes Addysg/Ysgolion sydd tu allan i'r 11 y cyfeiriwyd atynt uchod e.e. Darpariaeth ôl 16 Mewn Ysgolion, ac mae'n debygol y bydd y rheini hefyd yn derbyn toriad ariannol.

12. Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion, sydd ar sail ystadegau nifer disgyblion gyda hawl i ginio am ddim, yn codi o £918 yn 2014/15 i £1,050 yn 2015/16 gyda'r amodau caeth ar gyfer defnydd o'r grant yn parhau.

## 2. Casgliad

2.1 Bydd ysgolion angen cadw golwg barcud ar bob ffynhonnell ariannol sydd ar gael iddynt ac yn barod i adolygu cynlluniau i'r dyfodol yn syth pan mae rhagrybudd o doriad yn cyrraedd, yn arbennig yn yr hinsawdd ariannol bresennol.